# Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig Sir Gaerfyrddin 2018 - 2033

PrC1/MU1 Gorllewin Caerfyrddin
(Tir i'r Gogledd-orllewin o Safle'r Ysgol)

Datganiad Tir Cyffredin
rhwng Cyngor Sir Caerfyrddin a Monica Davies

**Dyddiad: 13 Tachwedd 2023**

# Cynnwys

1. Diben y Datganiad Tir Cyffredin hwn ........ 2
2. Y Safle ........ 2
3. Statws cynllunio'r safle ........ 2
4. Hyfywedd ariannol sy'n effeithio ar ddechrau'r datblygiad ........ 2
5. Perchnogaeth safle a chyfyngiadau mynediad sy'n effeithio ar yr asesiad o’r safle neu ddechrau'r datblygiad ........ 2
6. Darpariaeth isadeiledd angenrheidiol i gefnogi / galluogi'r datblygiad ........ 3
7. Bwriadau cyflawni a thaflwybr y tirfeddiannwr ........ 4
8. Llofnodwyr y Datganiad Tir Cyffredin ........ 4
Atodiad 1 ........ 5
Atodiad 2 ........ 6

## 1. Diben y Datganiad Tir Cyffredin hwn

Mae'r Datganiad Tir Cyffredin hwn wedi'i baratoi gan Gyngor Sir Caerfyrddin (CSC) mewn cydweithrediad â'r tirfeddiannwr, Monica Davies. Mae'r Datganiad Tir Cyffredin wedi'i baratoi i lywio'r Archwiliad o'r CDLl Diwygiedig mewn perthynas â rhan o ddyraniad tai Gorllewin Caerfyrddin (cyfeirnod PrC1/MU1). Bydd y datganiad hwn yn nodi materion y cytunwyd arnynt ac na chytunwyd arnynt rhwng y partïon a bydd yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael sy'n berthnasol i ddatblygiad y safle.

Mae cynnwys y Datganiad Tir Cyffredin hwn at ddefnydd paratoi'r CDLl yn unig ac ni ddylid ei ddefnyddio i ragfarnu'r gofynion mewn perthynas ag unrhyw gais(ceisiadau) cynllunio yn y dyfodol.

## 2. Y Safle

Mae'r safle'n cynnwys dau gae, sef cyfanswm o 3.2 hectar o fewn rhan o ddyraniad tai strategol ehangach ar ochr orllewinol Caerfyrddin. Mae Atodiad 1 yn cynnwys cynllun lleoliad y safle, ac mae atodiad 2 yn dangos lleoliad y safle o fewn ardal Briff Datblygu Gorllewin Caerfyrddin. Mae'r dyraniad ehangach, a adwaenir fel "Gorllewin Caerfyrddin", wedi'i ddyrannu ar gyfer cymysgedd o ddefnyddiau gan gynnwys cyflogaeth, cyfleusterau cymunedol, amwynder a lwfans o 700 o anheddau o fewn cyfnod y Cynllun Datblygu Lleol diwygiedig.

Mae'r safle wedi'i leoli yng nghanol y dyraniad ehangach a cheir mynediad o gylchfan ar Ffordd Pendre. Mae llethr graddol i'r safle o'r gorllewin i'r dwyrain.

## 3. Statws cynllunio'r safle

Mae'r safle wedi'i ddyrannu ar hyn o bryd yng Nghynllun Datblygu Lleol mabwysiedig Sir Gaerfyrddin fel safle defnydd cymysg. Mae Briff Cynllunio a Datblygu wedi ei fabwysiadu ar gyfer y safle, ac oddi mewn iddo mae'r safle wedi ei anodi fel datblygiad preswyl.

Nid oes gan y safle unrhyw ganiatâd cynllunio.

## 4. Hyfywedd ariannol sy'n effeithio ar ddechrau'r datblygiad

Disgwylir y bydd y datblygiad yn cyfrannu tuag at y canlynol:

- 12% yn Dai fforddiadwy;
- Swm cyfnewid o £883,629 (£10,909 fesul annedd marchnad agored) tuag at adeiladu Ffordd Gyswllt Gorllewin Caerfyrddin a ariannwyd gan y Cyngor, a darparu ysgol gynradd newydd;
- Ardal Leol ar gyfer Chwarae ar y safle.

## 5. Perchnogaeth safle a chyfyngiadau mynediad sy'n effeithio ar yr asesiad o'r safle neu ddechrau'r datblygiad

**Perchenogaeth y Safle:** Mae'r safle yn eiddo i Mr Phillip John Melville Davies a Mrs Mary Monica Anne Davies.

**Mynediad i'r safle:**O'r gylchfan ar Ffordd Pendre. Nid oes unrhyw gytundebau ar waith ar gyfer trefniadau mynediad eraill neu leiniau pridwerth.

**Hygyrchedd**: Mae'r safle wedi'i leoli dafliad carreg o ganol tref Caerfyrddin, sydd ag ystod o siopau a gwasanaethau. Mae safleoedd bws ar Ffordd Pendre sy'n teithio i ganol y dref ac oddi yno ac mae hyn yn darparu cysylltiadau â siopau a gwasanaethau ac â hybiau trafnidiaeth. O ran gwasanaethau lleol mae sawl ysgol leol yn yr ardal, gydag ysgol gynradd arfaethedig yn cael ei hadeiladu i'r de-ddwyrain o'r safle. Ystyrir felly fod y safle mewn lleoliad cynaliadwy sy'n addas ar gyfer datblygiad preswyl.

## 6.Darpariaeth isadeiledd angenrheidiol i gefnogi / galluogi'r datblygiad

Cyhoeddwyd yr Ail CDLl Adneuo er mwyn ymgynghori â'r cyhoedd yn ei gylch ym mis Chwefror 2023. Daeth ymatebion i law gan gyrff statudol yn ymwneud â'r dyraniadau o fewn y Cynllun ac fe'u nodir isod. Mae’r sylwadau’n ymwneud â’r dyraniad ehangach, nid yr elfen hon o’r safle yn unig:

Dŵr Cymru / Welsh Water:

| Lleoliad a Defnyddiau Arfaethedig | Cyflenwad dŵr | Carthffosiaeth gyhoeddus | Gwaith Trin Dŵr Gwastraff |
|---|---|---|---|
| **Gorllewin Caerfyrddin, Caerfyrddin**<br>Cymysgedd o ddefnyddiau, yn cynnwys defnydd preswyl (lwfans ar gyfer 700 o dai newydd o fewn cyfnod y cynllun hwn), cyflogaeth, cyfleusterau cymunedol ac amwynder. Roedd Ffordd Gyswllt Gorllewin Caerfyrddin yn ddangosydd cyflawnadwyedd allweddol. Mae'r ffordd hon bellach wedi'i chwblhau ac ar agor. | Safle wedi ymrwymo | | |

Cyfoeth Naturiol Cymru:

| Cyfeirnod y Safle | Enw'r Safle | Materion a nodwyd |
|---|---|---|
| PrC1/MU1 | Gorllewin Caerfyrddin | Mae gan y rhan fwyaf ganiatâd Cynllunio. Mae prif afon Nant y Ci yn croesi drwy'r safle. Parth Llifogydd FMfP 2 a 3 (Afonydd) a Pharth Llifogydd 3 (Môr), parth C2 sy'n gysylltiedig â'r afon. Osgowch ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd. |

Mae'r lliw oren sy'n ymwneud â'r sylwadau yn nodi bod “angen asesiadau/gofyniad pellach”.

(Noder: Nid yw'r safle hwn wedi'i gynnwys ym mharthau llifogydd 2 a 3 a C2)

## 7. Bwriadau cyflawni a thaflwybr y tirfeddiannwr

Mae'r tirfeddiannwr ar hyn o bryd yn y broses o roi'r tir ar werth, mae'r amserlenni datblygu a ragwelir wedi'u nodi isod.

| | **2023-24** | **2024-25** | **2025-26** | **2026-27** | **2027-28** | **2028-29** | **2029-30** | **2030-31** | **2031-32** | **2032-33** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgwylir iddynt gael eu cwblhau** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 20 | 30 | 30 | 20 |

## 8.Llofnodwyr y Datganiad Tir Cyffredin

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin ("Yr Awdurdod Cynllunio Lleol") a Monica Davies o'r farn bod y dyraniad yn gynaliadwy, yn ddichonadwy ac yn gyflawnadwy.

| | | |
|---|---|---|
| **Llofnodwyd ar ran yr Awdurdod Cynllunio Lleol** | IR Llewelyn | |
| **Enw** | **Ian R Llewelyn** | |
| **Swydd** | **Forward Planning Manager** | |
| **Dyddiad** | **13/11/23** | |


| | |
|---|---|
| **Llofnodwyd ar ran y Tirfeddiannwr** | |
| **Enw** | |
| **Dyddiad** | |

# Atodiad 1
## Map o'r Lleoliad



# Atodiad 2

## Cynllun Lleoliad gyda Safle Briff Datblygu Gorllewin Caerfyrddin




(Dangosir y ffin at ddibenion enghreifftiol yn unig – nid yw wedi'i llunio wrth raddfa)